CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
14 Gorffennaf 2021
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, S Jones, E Law Shui Nicholson, C Griffiths, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng H Eddings, J Earnshaw, G Parry, E Huws, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 09.06.21 Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng P Roberts yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Willow Tunnel** – Bydd y Clerc yn cysylltu a'r contractwr Mr R Williams i ofyn iddo gwblhau'r gwaith.
4.2	**Gor-yrru Bryngwran** – mae'r Clerc yn disgwyl am un pris arall am goleuadau sy'n fflachio.
4.3	**Lon y Fynwent** – Mae'r Clerc yn chwilio am arian grant ar gyfer y gwaith
4.4	**Matiau, trin a paentio y maes Chwarae** - Mae'r cyflenwyr wedi llenwi'r tyllau yn y matiau newydd. Ar ôl derbyn yr adroddiad arolygu blynyddol gan Rospa, cytunwyd i ddatgymalu a symud y twr a'r holl offer ar yr ardal matiau. Bydd y Clerc yn cael prisiau a bydd yn chwilio am grantiau ar gyfer offer newydd.
4.5	**Arwyddion 20myh** - Mae'r arwydd yn Stryd Salem wedi'i symud. Ni fydd yr Adran Priffyrdd yn symud yr arwydd yn y Stryd Fawr gan eu bod yn dweud ei bod yn weladwy.
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Diolchodd y Cadeirydd I'r holl aelodau a'r Clerc am weithio cystal gyda'i gilydd
	Llofnod…….Cadeirydd 08.09.21

6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	HHP/2021/199 7 Bro Mynydd, Bryngwran – dim sylwadau
	Priffyrdd
6.2	Arwyddion 20myh – gweler 4.5
	Polisi
6.3	Ymgynghoriad ar lefel y Dreth Cyngor I Ail Gartrefi
	Bydd yr aelodau'n edrych ar yr ymgynghoriad ac yn anfon sylwadau at y Cyngor Sir
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Rospa – gweler 4.4
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Rhif 1 (Tai Watkin Jones) - Cytunwyd i dynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda
8.2	Byrddau a meinciau maes Chwarae - Dywedodd y Cadeirydd fod Mr Brian Jones wedi gwneud rhywfaint o waith atgyweirio ar y meinciau. Cytunwyd i'w staenio.
8.3	Torri gwair - Cytunwyd i dynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Anglesey Computer Solutions £135.00
9.2	Rospa £94.80
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Y Gofeb
10.2	Y Ficer newydd
	Llofnod…….Cadeirydd 08.09.21